OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1440 (Cy. 148)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyfnewidfa Rhaglan i Drefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Mehefin 2015* |
| *Yn dod i rym* | *7 Mehefin 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mehefin 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyfnewidfa Rhaglan i Drefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 7 Mehefin 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng

Rhaglan a Threfynwy yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na caniatáu i unrhyw gerbyd, gael ei yrru ar hyd y gerbytffordd tua'r dwyrain na'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** (1) Pan waherddir symud traffig gan erthygl 3 ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ond yn unol ag erthygl 9, nas gwaherddir yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y lôn allanol o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain.

(2) Pan waherddir symud traffig gan erthygl 3 ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ond yn unol ag erthygl 9, nas gwaherddir yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y lôn allanol o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**Atal**

**8.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Trefynwy, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2007**(3)** drwy hyn wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 7 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Mehefin 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2007/1333 (Cy.126)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwrthlif a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi oddeutu 400 metr i'r de o fynedfa Twnelau Gibraltar hyd at bwynt oddeutu 50 metr i'r gogledd o fynedfa'r Twnelau hynny.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt oddeutu 275 metr i'r de o ganolbwynt Cyfnewidfa Rhaglan hyd at bwynt oddeutu 130 metr i'r gogledd o Dwnelau Gibraltar, Trefynwy, gan gynnwys y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd yng Nghyfnewidfa Rhaglan.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt oddeutu 230 metr i'r gogledd o Dwnelau Gibraltar, Trefynwy hyd at bwynt oddeutu 650 metr i'r gogledd o Bont Jingle Street.